

Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dydd Mercher, 25 Tachwedd 2020

10.00 - 13.25

Microsoft Teams

Yn bresennol:

Cyfarwyddwyr:

Gareth Pierce
William Callaway
Nia Elias
Meri Huws
Gwilym Dyfri Jones
Dr Hefin Jones
Pedr ap Llwyd
Dr Rhodri Llwyd Morgan
Llinos Roberts
Yr Athro Hywel Thomas

Sylwedydd:

Meg Hughes, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW)

Swyddogion:

Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr
Dr Dylan Phillips, Ysgrifennydd
Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd
Nia Brown, Swyddog Llywodraethiant

Yn bresennol:

Rhian Huws Williams (Eitem 8)

Ymddiheuriadau:

Yr Athro Jerry Hunter
Angharad Roberts
Branwen Thomas, Llywodraeth Cymru

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau gweithredu	Cyfnod amser
1. Croeso a chyflwyniad	<p>1.1 Estynnwyd croeso i bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod.</p> <p>1.2 Nodwyd bod Angharad Roberts ar gyfnod mamolaeth yn dilyn genedigaeth ei mab ym mis Medi.</p> <p>1.3 Nodwyd bod gan Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru ddau sylwedydd ar y Bwrdd ond nad oedd enwau wedi'u darparu ganddynt ar gyfer y cyfarfod hwn.</p>		
2. Datganiadau o ddiddordeb	<p>2.1 Atgoffwyd yr aelodau o'r drefn lle gofynnir i aelodau nodi unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau.</p>		
3. Derbyn ac ystyried cofnodion cyfarfod 24 Mehefin 2020	<p>3.1 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2020.</p>		
4. Adroddiad y Prif Weithredwr (Eitem 5)	<p>4.1 Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig y Prif Weithredwr ar weithgareddau diweddar.</p> <p>Cyllideb</p> <p>4.2 Adroddwyd ar gyfarfodydd gyda swyddogion Llywodraeth Cymru wrth ymgynghori'n llawn ar ymateb i'r argyfwng Covid-19 yn ystod y flwyddyn; yn ogystal â thrafod adnoddau ychwanegol i weithredu'r Strategaeth ôl-16 ac Addysg Gychwynnol Athrawon. Bydd diweddariad cyllidebol llawn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid a</p>		

	<p>Dibenion Cyffredinol ar 20 Ionawr 2021.</p> <p><i>Ar y pwynt hwn ymunodd Nia Elias</i></p> <p>Cyfarfodydd cynllunio</p> <p>4.3 Adroddwyd bod y cyfarfodydd cynllunio arferol wedi'u cynnal gyda'r prifysgolion; a bod y Prif Weithredwr yn mynychu cyfarfodydd penaeithiaid colegau dan adain Colegau Cymru.</p> <p>Ymateb i'r Argyfwng - Cronfa Adfer</p> <p>4.4 Adroddwyd bod y Coleg, yn dilyn datblygu cais cydweithredol ar ran y prifysgolion i Gronfa Adfer CCAUC, wedi cefnogi cais i ddiogelu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a gyflwynwyd gan Brifysgol Glyndŵr ar ran y sector. Nodwyd bod cynllunio strategol cenedlaethol y Coleg yn cael ei ystyried erbyn hyn fel model ar gyfer darpariaeth cyfrwng Saesneg hefyd.</p> <p>Ymgynghoriad Addysg Drydyddol ac Ymchwil</p> <p>4.5 Adroddwyd ar ymateb drafft y Coleg, a gylchredwyd cyn y cyfarfod, i ddeddfwriaeth ddrafft sefydlu corff rheoleiddio newydd ar gyfer y sector ôl-orfodol.</p> <p>4.6 Yn dilyn trafodaeth cytunwyd y dylai'r Coleg ymofyn cyngor cyfreithiol er mwyn sicrhau priodoldeb sylwadau'r Coleg ynghylch cryfhau safle'r Gymraeg o fewn y drefniadaeth newydd. Trafodwyd hefyd yr angen i sicrhau cadarnhad ffurfiol pellach o'i ffrwd cyllid uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>4.7 Gwahoddwyd aelodau'r Bwrdd i gyflwyno unrhyw sylwadau pellach i'w cynnwys yn yr ymateb i'r</p>	<p>Swyddogion i geisio cyngor cyfreithiol</p> <p>Sylwadau aelodau i ymateb y Coleg i'r ddeddfwriaeth</p>	<p>Ar unwaith</p> <p>30 Tachwedd 2020</p>
--	---	--	---

	<p>ddeddfwriaeth erbyn diwedd y mis.</p> <p>Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA)</p> <p>4.8 Adroddwyd ar y trafodaethau sy'n parhau i gefnogi'r ymgais i sicrhau cyflenwad digonol o athrawon i ddiwallu anghenion y cynlluniau addysg sirol a thargedau Strategaeth Iaith Gymraeg 2050.</p> <p>Addysg Bellach a Phrentisiaethau</p> <p>4.9 Adroddwyd ar drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ar yr angen am adnoddau digonol i weithredu'r Strategaeth ôl-16. Adroddwyd ymhellach ar gyfarfodydd gyda Chymwysterau Cymru i adolygu meysydd blaenoriaeth.</p> <p>Ymgysylltu</p> <p>4.10 Adroddwyd bod Maniffesto'r Coleg ar gyfer dysgu gydol oes Cymraeg a dwyieithog y sector ôl-orfodol yng Nghymru (2020 i 2025) ar gyfer Etholiadau'r Senedd yn 2021 wedi'i gylchredeg i'r pleidiau ac aelodau'r Bwrdd ar ddechrau'r wythnos.</p> <p>Agenda gwrth-hiliaeth</p> <p>4.11 Adroddwyd y cynhaliwyd cyfarfod staff ar 6 Hydref, gyda chyflwyniadau gan Mali Rees a Sara Yassine, i ystyried ymateb y Coleg i'r agenda gwrth-hiliaeth. Mae grŵp mewnol wedi cwrdd ers hynny ac wedi llunio'r cynllun gweithredu a gylchredwyd cyn y cyfarfod.</p> <p>4.12 Yn dilyn trafodaeth cytunwyd y byddai diweddariadau rheolaidd yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd ar ddatblygiad a gweithrediad y cynllun.</p>	ddrafft	
--	---	---------	--

<p>(Atodiad 5A)</p>	<p>Diweddariadau cyffredinol ar waith y Coleg</p> <p>4.13 Derbyniwyd adroddiadau ysgrifenedig mewn perthynas â Hyfforddiant Academaidd ac Ysgoloriaethau Ymchwil; <i>Gwerddon</i> a phrosiectau cyhoeddi eraill; Cynllun Darlithwyr Cysylltiol; Cynllun Cymraeg Gwaith; Gweithgareddau a Phrosiectau Cydweithredol; y Gymraeg fel pwnc; ac Addysg Bellach a Phrentisiaethau, er gwybodaeth.</p> <p>4.14 Ar ddiwedd y drafodaeth nododd aelodau'r Bwrdd eu cydnabyddiaeth o'r ystod eang o waith y Coleg sydd yn cael ei gyflawni gan staff y Coleg, yn enwedig ar hyn o bryd mewn cyfnod heriol gydag adnoddau cyfyngedig.</p>		
<p>5. Adroddiad y Cadeirydd</p>	<p>5.1 Adroddodd y Cadeirydd ar ei gyfarfodydd ymgysylltu diweddar gyda Llywodraeth Cymru; y Cyngor Gweithlu Addysg; a Chymwysterau Cymru.</p>		
<p>6. Materion Cyfansoddiadol</p> <p>(Eitem 7)</p> <p>(Eitem 7a)</p>	<p>Trefniadau'r cyfarfod cyffredinol blynyddol</p> <p>6.1 Nodwyd y cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (Llys) y Coleg ar 16 Mawrth 2021 ar ffurf rithiol.</p> <p>Cylchoedd gorchwyl</p> <p>6.2 Cyflwynwyd a chymeradwywyd diwygiadau, er cysondeb, i gylchoedd gorchwyl y:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant • Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol • Pwyllgor Archwilio a Risg • Bwrdd Academaidd <p>6.3 Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i ddiwygio cylch gorchwyl y</p>	<p>I'w ddiwygio</p>	<p>Ar unwaith</p>

	<p>Bwrdd Strategol ôl-16 i adlewyrchu'r un amcanion â'r Bwrdd Academaidd sef "Sicrhau cyflawni nodau Cynllun Strategol y Coleg" a chytunwyd i'r newid.</p> <p>6.4 Trafodwyd y cymal o'r cylch gorchwyl sydd yn rhoi awdurdod i'r Bwrdd Academaidd alw cyfarfod cyffredinol (cymal 7iii) a chytunwyd i'w ystyried o fewn y cylch adolygu nesaf.</p> <p><i>Ar y pwynt hwn ymunodd Dr Hefin Jones</i></p>	Ystyried awdurdod y Bwrdd Academaidd	Cyn diwedd 2020/21
<p>7. Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol</p> <p>(Eitem 9)</p>	<p>Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol</p> <p>7.1 Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 30 Medi 2020.</p> <p>7.2 Cyflwynwyd crynodeb o'r prif bwyntiau yn codi o gyfarfod 30 Medi 2020, gan Pedr ap Llwyd, Cadeirydd y Pwyllgor:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nododd bod y Rheoliadau Ariannol wedi'u hadolygu • Nododd bod y cyfrifon rheoli a diweddariad ar gyllideb y Coleg wedi'u cyflwyno • Nododd bod cwmni Sterling, sy'n monitro buddsoddiadau'r Coleg, wedi darparu adroddiad yn nodi bod goruchwyliaeth cwmni Sarasin o'r buddsoddiadau yn briodol ac yn addas <p>7.3 Derbyniwyd adroddiad llafar ar gyfarfod caeëdig o'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ar 4 Awst 2020 gan gadeirydd y pwyllgor. Penderfynwyd trafod y mater ymhellach fel eitem gaeëdig ar ddiwedd cyfarfod y Bwrdd, pryd y cytunwyd y dylid meincnodi ymhellach er mwyn gallu cwblhau adolygiad cyflogau'r Prif Weithredwr a'r Uwch Reolwyr a chyflwyno argymhelliad i'r Bwrdd fis</p>	Argymhelliad ar gyflogau	Erbyn Gwanwyn 2021

	Mawrth 2021.		
<p>8. Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant</p> <p>(Eitem 8)</p> <p>(Eitem 8a)</p> <p>(Eitem 8ch(i) a (ii))</p> <p>(Eitem 8b)</p>	<p><i>Ar y pwynt hwn ymunodd Rhian Huws Williams</i></p> <p>Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant</p> <p>8.1 Derbyniwyd adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant, Rhian Huws Williams.</p> <p>8.2 Adroddodd mai prif waith y Pwyllgor yn ystod ei blwyddyn gyntaf fel cadeirydd oedd penodi Cadeirydd newydd i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr. Talodd teyrnged i Dr Haydn Edwards, cyn-Gadeirydd y Bwrdd, am arwain arolwg sgiliau'r Cyfarwyddwyr a fydd yn sylfaen i waith nesaf y pwyllgor o benodi Cyfarwyddwyr newydd. Adroddodd ymhellach y bydd holiadur gwerthuso'r Cyfarwyddwyr, a ohiriwyd yn sgil yr argyfwng, yn cael ei weinyddu yn nhymor y gwanwyn.</p> <p>Cofnodion y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant</p> <p>8.3 Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf a 23 Medi 2020.</p> <p>Gweithdrefn penodi Cyfarwyddwyr</p> <p>8.4 Cyflwynwyd diweddariadau i weithdrefn benodi Cyfarwyddwyr i'r Bwrdd gan yr Ysgrifennydd.</p> <p>8.5 Adroddwyd mai diweddariadau i gyd-destunoli ehangu gweithgaredd y Coleg oedd y diwygiadau.</p>		

<p>(Eitem 8c)</p>	<p><i>Ymataliodd y Cadeirydd o'r drafodaeth hon</i></p> <p>8.6 Trafodwyd addasrwydd hysbysebu am Gadeirydd y Bwrdd pob tair blynedd. Adroddodd yr Ysgrifennydd y bydd y pwyllgor yn adolygu tymor gwasaneth Cadeirydd y Bwrdd a gweithdrefn ail-benodi'r Cadeirydd yn unol â'i rhaglen waith.</p> <p>8.7 Yn dilyn y drafodaeth cymeradwywyd y weithdrefn.</p> <p>Strategaeth benodi Cyfarwyddwyr newydd i'r Bwrdd</p> <p>8.8 Cyflwynwyd strategaeth benodi Cyfarwyddwyr newydd i'r Bwrdd gan yr Ysgrifennydd.</p> <p>8.9 Cadarnhawyd ail-benodi William Callaway am dymor pellach o bedair blynedd tan 7 Tachwedd 2024.</p> <p>8.10 Adroddwyd y bydd ail dymor Dr Hefin Jones a'r Athro Hywel Thomas yn dod i ben ar ddiwedd Mawrth 2021 a'r Athro Jerry Hunter a Dr Rhodri Llwyd Morgan ym mis Tachwedd 2021. At hyn y mae un lle gwag ar ôl penodi Gareth Pierce yn Gadeirydd.</p> <p><i>Ar y pwynt hwn ymadawodd Dr Hefin Jones</i></p> <p>8.11 Yn ystod y drafodaeth nodwyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • anghenion sgiliau • pwysigrwydd sicrhau diwylliant ac agwedd sefydliadol yng nghyd-destun amrywedd yn ogystal â Bwrdd cynrychioladol â dealltwriaeth o'r cyd-destun yng Nghymru • risgiau colli cyfarwyddwyr profiadol a'r angen i ystyried i ba raddau y gellid osgoi sefyllfa o golli pum cyfarwyddwr yn agos i'w gilydd yn y dyfodol • ehangu'r broses anwytho 		
-------------------	--	--	--

	<ul style="list-style-type: none"> • parhau i ganiatáu i ddarpar-gyfarwyddwyr ymuno gyda chyfarfodydd y Bwrdd fel sylwedyddion • proffil oedran aelodau'r Bwrdd <p>8.12 Derbyniwyd yr argymhellion i benodi pum cyfarwyddwr newydd yn ystod y flwyddyn nesaf i'w hysbysebu fis Rhagfyr 2020.</p> <p><i>Cyn i Rhian Huws Williams ymadael estynnwyd cydymdeimlad y Bwrdd ati ar ei phrofedigaeth diweddar.</i></p>		
<p>9. Pwyllgor Archwilio a Risg</p> <p>(Eitem 10i)</p> <p>(Eitem 10ii)</p>	<p>Pwyllgor Archwilio a Risg</p> <p>9.1 Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2020.</p> <p>9.2 Cyflwynwyd crynodeb o'r prif bwyntiau yn codi o gyfarfod 21 Hydref 2020, gan William Callaway, Cadeirydd y Pwyllgor:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nododd bod yr Archwilwyr Allanol (PwC) wedi cwblhau'r gwaith ar y cyfrifon blynyddol archwiliedig a bod darlun ariannol y Coleg yn foddhaol. Nodwyd mai addasiadau i werthusiad yr ymrwymadau pensiwn sydd wedi dylanwadu'n sylweddol ar warged y ddwy flynedd ddiwethaf, ond gan fod yr addasiadau mewn cyfeiriadau gwrthgyferbyniol mae'r darlun yn eithaf sefydlog. <p>Cyfrifon Blynyddol Archwiliedig y Coleg 2019/20</p> <p>9.3 Derbyniwyd cyfrifon blynyddol archwiliedig y Coleg ar gyfer 2019/20 i'w cyflwyno'n ffurfiol i'r Llys ar 17 Mawrth 2021.</p>		

<p>(Eitem 10iii)</p>	<p>Y Gofrestr Risg</p> <p>9.4 Adroddwyd bod y Gofrestr Risg wedi'i ddiweddarau yn sgil Covid-19.</p> <p>9.5 Mewn ymateb i gwestiwn am lesiant y staff yn ystod yr argyfwng adroddodd y Prif Weithredwr bod asesiadau risg wedi'u cynnal ar ffurf holiaduron i'r staff a bod fframwaith ymgynghori ar ddychwelyd i'r swyddfa maes o law mewn lle.</p> <p><i>Ar y pwynt hwn ymadawodd Pedr ap Llwyd</i></p>		
<p>10. Bwrdd Academaidd</p> <p>(Eitem 11)</p>	<p>Bwrdd Academaidd</p> <p>10.1 Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2020.</p> <p>10.2 Cafwyd crynodeb o drafodaeth cyfarfod 14 Hydref 2020, gan y Prif Weithredwr:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nododd profiadau digynsail myfyrwyr a staff yn ystod y misoedd diwethaf a bod y Bwrdd wedi rhoi ystyriaeth i faterion llesiant ac agweddau Iechyd Meddwl • Nododd y camau a gymerwyd gan y Coleg i ddiwallu anghenion addysgu darlithwyr yn sgil llwyth gwaith a bugeilio ychwanegol • Nododd fwriad y Deon i ymweld â'r canghennau ar ffurf rithiol yn y flwyddyn newydd 		
<p>11. Bwrdd Strategol ôl-16</p> <p>(Eitem 12)</p>	<p>Bwrdd Strategol ôl-16</p> <p>11.1 Cafwyd crynodeb o brif bwyntiau cyfarfod 4 Tachwedd 2020, gan Meri Huws, Cadeirydd y pwyllgor:</p>		

	<ul style="list-style-type: none"> • Casglu deunyddiau dysgu cyfunol ynghyd ar y Porth Adnoddau • Cymhwyster aseswyr cyfrwng Cymraeg i'r gweithlu • Llwyddiant y llysgenhadon • Ymgyrch manteision dwyieithrwydd: Mae gen ti Fantais • Cynllun adeiladwyr CITB – model i sectorau eraill i hybu cyflogwyr dwyieithog • Gwaith strategol y Coleg <p><i>Ar y pwynt hwn ail-ymunodd Pedr ap Llwyd</i></p> <p>11.2 Yn ystod y drafodaeth nodwyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yr angen am fuddsoddiad pellach i barhau â'r gwaith • Heriau strwythurol o fewn y colegau i gynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg • Pryderon ynghylch diswyddiadau ymysg y gweithlu yn sgil Covid-19 a phwysigrwydd cadw golwg ar y sefyllfa gyda NTFW <p>Cofnodion y Bwrdd Strategol ôl-16</p> <p>11.3 Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Bwrdd Strategol ôl-16 a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2020.</p>		
<p>12. Cynulliad Blynyddol y Coleg 2021</p>	<p>Cynulliad Blynyddol</p> <p>12.1 Nodwyd y cynhelir Cynulliad Blynyddol y Coleg ar 16 Mawrth 2021 ar ffurf rithiol i dderbyn Cymrodyr y Coleg ac i gydnabod myfyrwyr doethuriaeth 2020 a 2021.</p> <p>12.2 Adroddodd y Prif Weithredwr ar y posibilrwydd o gynnal digwyddiad i ddathlu dengmlwyddiant y Coleg yn nhymor</p>		

	yr Hydref 2021.		
13. Dyddiad y cyfarfod nesaf	<p>13.1 Nodwyd dyddiad cyfarfod nesaf y Bwrdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 17 Mawrth 2021: rhithiol. <p>13.2 Diolchwyd Osian Rhys am gyfiethu ar y pryd.</p>		